## ATODLEN 6

Rheoliad 2(2)(d)

### Manyleb sudd ffrwythau dadhydredig a sudd ffrwythau powdr

**1.** Sudd ffrwythau dadhydredig neu sudd ffrwythau powdr yw'r cynnyrch a geir o sudd ffrwythau un neu fwy o rywogaethau o ffrwythau drwy fynd ati'n ffisegol i dynnu bron y cyfan o'u cynnwys dŵr.

**2.** Yn ychwanegol at y cynhwysion a grybwyllir ym mharagraff 1, caiff y cynnyrch gynnwys y naill neu'r llall, neu'r ddau, o'r canlynol —

(a) cynhwysyn ychwanegol awdurdodedig; a

(b) sylwedd ychwanegol awdurdodedig.

**3.** Ni chaniateir defnyddio triniaeth, ac eithrio triniaeth awdurdodedig, wrth weithgynhyrchu cynnyrch.